PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 156 Rhif 47 Tachwedd 23, 2023 50c.

## Cydymdeimlad

Gyda thristwch y clywyd am farwolaeth y Parchg Terry Edwards, Waunfawr Aberystwyth. Bu Terry'n gweinidogaethu yn Llwyngwril ac yna Bryncrug, Aberdyfi a Phennal. Estynnwn ein cydymdeimlad â'i deulu.

# 'DRUDWY'

Mae enwau torfol, *collective nouns*, yn ddiddorol. Diadell o eifr; cnud o fleiddiaid, gyr o wartheg, bu o ychain; traill o bysgod, gre o wenyn, pla o forgrug. Neu, a throi at y Saesneg: *a culture of bacteria*, *a lounge of lizards, a murder of crows*. Â minnau'n weinidog, diddorol oedd gweld y cyfeiriad at a *congregation of birds*, ac yn wir mae ambell dderyn ym mhob cynulleidfa o bobl Dduw; ond hefyd, sylwch a *congregation of crocodiles*. Taw piau hi mae'n siŵr!



*Llun: Amelia Davies, Aberystwyth*

### Deffro'r cof

Gwelais luniau yn ddiweddar gan Amelia Davies o ddrudwy Aberystwyth, a deffrodd y cof o'i herwydd. Dylai ambell brofiad aros yn y cof, ond fe lithrant yn dawel i ffwrdd, a dyna'n union ddigwyddodd i'r atgof hwn. Pedair blynedd yn ôl, tua'r adeg yma o'r flwyddyn: gwelais haid o ddrudwy yn ehedeg.

### Pnawn siwmperog

Roedd pnawn siwmperog yn dechrau ildio i'r nos, ac yn ddisymwth, fe ddaethant: cwmwl llwyd-frown ohonynt. Degau; na, cannoedd o ddrudwy; drudwy yn un gwibiad yn gwibio. Mor rhyfedd rhyfeddod eu perffaith cydsymud. A'r naill yn arwain y llall a hwnnw'n arwain y lleill crëwyd y naill batrwm rhubanog ar ôl y llall. Y cyfan oll mewn tawelwch aflonydd: sisial adenydd ac ambell gri a gwich – fel lleisiau'n galw mewn twmpathau dawns. Ac yn dyst i'r sioe, cwmni bychan bach o bobl.

### Hen ddyhead

Deffrowyd yr atgof hwnnw, a hefyd hen ddyhead. Y dyhead i fod yn rhan, ac â rhan yn rhywbeth tebyg: pobl Dduw yn cydsymud mewn ffydd, cyd-ddyheu a chydryfeddu mewn gobaith; ac mewn cariad yn cydweithio'n anturus a mentrus, a hynny, nid er waethaf ein hamrywiaeth barn ac argyhoeddiad, ond o'i herwydd. Yn union fel y daethant – yn sydyn – diflannodd yr adar. Nid oedd golwg ohonynt, ond roedd eu sŵn yn hyglyw.

### Trin a thrafod y sioe

Â'r perfformiad bellach trosodd, roedd yr adar hyn fel cast, corws a cherddorfa, yn trin a thrafod y sioe. Roedd y drudwy'n clebran o dan y pier.

Mae Google yn awgrymu fod drudwy yn heidio fel hyn i gadw cwmni a chadw'n ddiogel; i rannu cysgod a lledu gwybodaeth. Mae hyn yn wir, mae'n siŵr; ond annigonol ydyw i lwyr gyfleu afresymoldeb dawns a dawnsio'r drudwy. Tua'r adeg, pan mae pobl yn llusgo'i ffordd am adref, mae'r adar hyn yn dawnsio, a chlodfori eu bodolaeth.

### Ymuno yn y ddawns

Oni ddylem ymuno yn y ddawns honno? Aethom yn fwy tebyg i ddail nag adar. Dail yn tindroi'n yn cornelu cymhlethdodau yr 'argyfwng'. O! am enaid adeiniog! Eglwysi adeiniog, a'n gweinidogaeth yn ddawns batrymog: un llif ein llifo. Am wn i, mae'r emyn hwn yn hwb i hedfan:

> Nef a daear, tir a môr
> sydd yn datgan mawl ein Iôr:
> fynni dithau, f'enaid, fod
> yn y canol heb roi clod?
>
> Gwena'r haul o'r cwmwl du
> er mwyn dangos Duw o'n tu;
> dywed sêr a lleuad dlos
> am ei fawredd yn y nos.
>
> Gwellt y maes a dail y coed
> sy'n ei ganmol ef erioed;
> popeth hardd o dan y nef,
> dyna waith ei fysedd ef.
>
> Cwyd aderyn bach o'i nyth
> am fod Duw yn dirion byth;
> gwrendy'r corwynt ar ei lef,
> cerdda'r mellt ei lwybrau ef.
>
> Dywed afon yn ei hiaith
> mai efe sy'n trefnu'r daith;
> ac ni chyfyd ton o'r môr
> heb roi mawl i enw'r Iôr.
>
> Rhyfedd wyt, O Dduw,
> bob awr yn egluro d'allu mawr:
> wrth dy draed, O dysg i mi
> beth wyf fi, a phwy wyt ti.
>
> (Joachim Neander, 1650–80 cyf. Elfed, 1860–1953 C.Ff:116).

Bod yn ddiolchgar am holl fendithion
Duw yw'r fwyaf o'r holl fendithion.

***Owain Llŷr***



*Llun: Amelia Davies, Aberystwyth*

# MYFYRDOD O'R BEIBL
# Y Beibl a'i bobl (4): Ruth

## Israel a'r barnwyr

Roedd Ruth yn byw mewn cyfnod eithriadol o dywyll yn hanes yr Iddewon. Ar ôl i Moses farw, dyma'r Iddewon yn cyrraedd a choncro Gwlad yr Addewid (Canaan) gan wahanu'r tir rhwng deuddeg llwyth Israel. Er hynny, yn fuan wedi iddynt gyrraedd y wlad, dyma'r Israeliaid yn dechrau anghofio am yr Arglwydd. Yn hytrach na'i addoli a'i garu, dyma nhw'n cefnu arno gan droi at dduwiau'r cenhedloedd oedd o'u cwmpas. Roedd hwn yn gyfnod o ddirywiad trychinebus a daeth anfoesoldeb ac anhrefn gymdeithasol i nodweddu'r genedl. Er gwaetha gwrthryfel yr Israeliaid, roedd Duw yn ffyddlon. Gan ei fod yn caru ei bobl gymaint, cododd arweinwyr arbennig i'w harwain. Enw'r arweinwyr hyn oedd y 'barnwyr'. Rydym yn clywed eu hanes yn llyfr y Barnwyr yn yr Hen Destament. Rhai o'r barnwyr amlycaf oedd Gideon a Samson. Pobl amherffaith iawn oedd yr arweinwyr hyn ond cawsant eu defnyddio gan Dduw i ddod â'i bobl yn ôl ato. Ond, er i'r Arglwydd anfon barnwr ar ôl barnwr, yn y pendraw, gwrthgiliodd yr Israeliaid ymhellach oddi wrtho. Mae llyfr y Barnwyr yn gorffen ar nodyn arbennig o dorcalonnus ac anobeithiol (Barnwyr 21)

Er mai oes dywyll oedd un y barnwyr, nid oedd popeth yn dywyll. Mae hanes Ruth yn dangos fod Duw ar waith hyd yn oed pan mae'r sefyllfa'n ymddangos yn gwbl anobeithiol.

### Stori serch

Stori serch yw stori Ruth. Mae'r stori yn cychwyn gyda gŵr a gwraig o'r enw Elimelech a Naomi sy'n symud gyda'u meibion, Mahlon a Chilion, i wlad Moab pan roedd newyn difrifol yn Israel. Ym Moab, mae Mahlon a Chilion yn priodi gwragedd o'r wlad o'r enw Orpa a Ruth. Gwaetha'r modd, yn fuan wedi iddynt briodi, mae Elimelech, Mahlon a Chilion yn marw gan adael Naomi, Orpa a Ruth ar eu pennau eu hunain (Ruth 1:1–5). Mae Orpa'n penderfynu dychwelyd at ei theulu ei hun ond mae Ruth yn glynu wrth ei mam yng nghyfraith ac mae'r ddwy'n mudo'n ôl i wlad Israel gan fod y newyn wedi dod i ben. Moabes oedd Ruth nad oedd yn perthyn i'r Iddewon na chenedl Israel. Cyn iddi gwrdd â Naomi a'i theulu, nid oedd hi'n addoli'r Arglwydd nac yn ei adnabod. Er hynny, wrth benderfynu glynu wrth Naomi mae hi hefyd yn dewis glynu wrth ei Duw. Yn wir, dyma'r hyn mae Ruth yn ei ddweud wrth ei mam yng nghyfraith: 'Paid â'm hannog i'th adael, na throi'n ôl oddi wrthyt oherwydd i ble bynnag yr ei di, fe af finnau ac ym mhle bynnag y byddi di'n aros, fe arhosaf finnau; dy bobl di fydd fy mhobl i, a'th Dduw di fy Nuw i.' (Ruth 1:16)

### Gofal a pharch

Mae Ruth yn benderfynol o ofalu am ei mam yng nghyfraith gan weithio i brynu bwyd ar ei chyfer. Wrth weithio yn y cae, mae Ruth yn cwrdd â dyn o'r enw Boas. Yn araf bach, mae'r ddau yn dod i adnabod ei gilydd gan ddod i garu ei gilydd. Mae Boas yn trin Ruth mewn ffordd arbennig o urddasol a pharchus. Digwydd bod, mae Boas yn berthynas i Naomi sy'n golygu ei fod mewn lle i briodi Ruth er mwyn cadw enw teuluol Chilion (dyma oedd arfer yr Iddewon bryd hynny). Er bod yn rhaid iddo holi perthynas agosach yn gyntaf, yn y pen draw, mae Boas yn priodi Ruth ac mae Duw'n cynnal y teulu er gwaetha eu trallod (Ruth 4:1–12).

### Cymhwyso

Mae stori Ruth yn dangos sut mae Duw yn croesawu pobl o'r tu allan i fod yn rhan o'i deulu. Moabes oedd Ruth nad oedd yn perthyn i deulu cyfamodol Duw. Er hynny, trwy ymddiried yn yr Arglwydd mae hi'n cael ei chynnwys yn rhan o'i bobl. Pwy bynnag ydym heddiw, beth bynnag yw ein cefndir a'n tras – beth bynnag yr ydym wedi ei wneud mewn bywyd – mae Duw eisiau ein croesawu ni'n rhan o'i deulu dim ond i ni edifarhau a throi mewn ffydd at Iesu.


### Cariad

Yn llyfr Ruth cawn gysgod amlwg iawn o'r Arglwydd Iesu ym mherson Boas. Mae Boas yn caru Ruth ac yn ei gariad mae'n cymryd cyfrifoldeb drosti. Fel Moabes a gweddw, nid oedd Ruth yn ddynes arbennig o ddeniadol i'w phriodi yn llygaid ei chymdeithas. Ond mae Boas yn benderfynol o'i phriodi er mwyn gofalu amdani a'i mam yng nghyfraith.

Yn yr un modd, er nad ydym ni'n ddeniadol oherwydd ein pechod a'n gwrthryfel, mae Duw wedi'n caru. Yn ei gariad, mae Duw wedi cymryd cyfrifoldeb drosom. Daeth i'r byd ym mherson ei fab Iesu. Mae Iesu'n cael ei ddisgrifio gan y Testament Newydd fel priodfab ffyddlon sydd wedi aberthu ei fywyd ar y groes er mwyn ein cyflwyno ni, yr eglwys, i Dduw'r Tad. Yn wir, dywed Paul yn Effesiaid 5:25: 'Chwi wŷr, carwch eich gwragedd, fel y carodd Crist yntau'r eglwys a'i roi ei hun drosti.'

Mae llyfr Ruth yn gorffen trwy dynnu ein sylw at y cysgod hwn o'r Arglwydd Iesu. Yn Ruth 4:20, rydym yn dysgu mai Ruth a Boas oedd hen dad-cu a mam-gu'r Brenin Dafydd. Dafydd, wrth gwrs, oedd un o gyndeidiau'r Arglwydd Iesu Grist (Mathew 1:5). Trwy edrych ar brif gymeriadau'r Hen Destament, rydym yn y pen draw yn dysgu mwy am Iesu Grist.

**Gwilym Tudur**




## TASG Y PROFFWYD

**Defnyddiwch lythyren gyntaf yr enw ym mhob adnod i greu enw proffwyd Beiblaidd.**

**Mae'r ateb ar dudalen 6**

1. Gŵr a lysenwid yn asyn cryf – Genesis 49:14
2. Gŵr blewog – Genesis 27:11
3. Gof arian – Actau 19:24
4. Hwn ddaeth yn ôl i Fethania – Ioan 11:17
5. Mab i Lamech – Genesis 5:29
6. Brenin Amalec – 1 Samuel 15:33

Yr Adran Gydenwadol

TACHWEDD 23 2023 RHIF 143

# Cydweithio cydenwadol arloesol ym maes hyfforddiant

Roedd dydd Mawrth, 19 Medi, yn ddiwrnod hanesyddol wrth i'r Annibynwyr, y Bedyddwyr a'r Eglwys Bresbyteraidd gychwyn ar bennod newydd o gydweithio ym maes hyfforddiant.

## Galw am drafodaeth i ystyried cydweithio cydenwadol ym maes hyfforddiant

Yn hanesyddol, roedd gan y tri enwad golegau diwinyddol, a phob enwad yn gyfrifol am ei hyfforddiant ei hun. Yn naturiol, roedd rhai gwahaniaethau i'w gweld o ran trefn a chynnwys, ond nid oes amheuaeth nad oedd gorgyffwrdd i'w weld hefyd.

Rhai blynyddoedd yn ôl, estynnwyd gwahoddiad i gynrychiolwyr o'r tri enwad i gyfarfod i drafod y posibilrwydd o gydweithio ym maes hyfforddiant pan fo hynny'n bosib, a dewiswyd yr Athro Eryl Wynn Davies fel Cadeirydd. Yn naturiol, nid y bwriad yw tanseilio unrhyw hyfforddiant sy'n bodoli eisoes, ond cytuno i gyd-drafod unrhyw gynlluniau hyfforddiant, a chydweithio a chydhyfforddi pan fo hynny'n bosib.

Wrth drafod, teimlwyd y byddai'n braf, yn ychwanegol at yr hyfforddiant mewnol, gallu cynnig cyrsiau fyddai'n rhoi achrediad academaidd i'r rhai fyddai'n dymuno hynny. Nodwyd bod Coleg y Bedyddwyr yng Nghaerdydd, drwy eu perthynas â Phrifysgol Caerdydd, eisoes yn cynnig cyrsiau ar gyfer cymwysterau safon uwch, yn cynnwys diploma, a graddau baglor, meistr a doethuriaeth. Cam naturiol felly oedd y byddai'r trafodaethau'n cynnwys cydweithio â Choleg y Bedyddwyr yn ogystal, a thrwy hynny ehangu'r cyfleoedd hyfforddiant i gynnwys y cyrsiau achredig hyn. Yn naturiol, gellir dadlau nad oedd dim rhwystr i unrhyw fyfyriwr fynychu'r coleg beth bynnag, a byddai hynny'n wir. Fodd bynnag, drwy'r berthynas hon, bydd gennym gyswllt clòs â'r staff, cyfle i roi mewnbwn ac awgrymiadau am gynnwys posib rhai modiwlau, a'r cyfle i fod yn rhan o fywyd a chymuned y coleg.

## Nodi dechrau'r berthynas

Yn dilyn cyflwyno ffrwyth y drafodaeth i Gyfarfodydd Blynyddol y tri enwad, a'r tri yn gytûn i fwrw ymlaen am gyfnod cychwynnol, nodwyd dechrau'r cydweithio mewn cyfarfod arbennig yn Neuadd Hebron, Dinas Powys, ddydd Mawrth, 19 Medi. Yn ystod y prynhawn, cafodd y tri chynrychiolydd enwadol y cyfle i gyfarfod â staff Coleg y Bedyddwyr i glywed am y cyrsiau a'r modiwlau sydd ar gael gan y coleg, i rannu ychydig am yr hyfforddiant mewnol sydd gan bob enwad, ac i fynegi eu gobeithion gyda'r cynllun newydd, cyffrous hwn.

Yna, yn dilyn swper, cynhaliwyd oedfa i nodi dechrau blwyddyn academaidd y Coleg, gyda'r holl staff a'r myfyrwyr yn



Y cynrychiolwyr enwadol a ddaeth ynghyd

bresennol. Arweiniwyd yr oedfa gan gyd-benaethiaid y Coleg, sef y Parchg Ddr Rosa Hunt a'r Parchg Ddr Ed Kaneen, a thestun llawenydd mawr oedd gweld cynifer o fyfyrwyr ac Ymgeiswyr am y Weinidogaeth o blith y Bedyddwyr, Cymraeg a Saesneg eu hiaith, yn cychwyn eu taith i gymhwyso ar gyfer y Weinidogaeth. Traddodwyd y bregeth gan y Parchg Beti Wyn James yn seiliedig ar Philipiaid 1. Cawsom, drwy'r bregeth, ein harwain i ystyried geiriau agoriadol gweddi Paul, gan seilio'r cyfan ar dri gair, sef braint, cyfranogwyr ac addewid.


Yn dilyn y bregeth, symudwyd ymlaen i nodi'r berthynas newydd gyda'r cynllun cydenwadol. Darllenwyd cymalau o'r memorandwm o ddealltwriaeth cyn estyn gwahoddiad i gynrychiolwyr yr enwadau i ddod ymlaen i ysgwyd llaw â chyd-benaethiaid y Coleg a chael ein harwain mewn gweddi i geisio bendith Duw ar y cyfan. Yna, cawsom ein harwain i ymuno â'n gilydd o amgylch bwrdd Swper yr Arglwydd.

## Beth nesaf?

Ni fydd y cydweithio eciwmenaidd hwn yn tanseilio hyfforddiant mewnol yr enwadau unigol o gwbl. Ond heb os, mae hwn yn gam pwysig ymlaen yn ein gwaith cydenwadol ac, yn fwy na hynny, yn gyfle newydd inni ehangu ac adeiladu gyda'n gilydd wrth geisio hyfforddi gweithwyr ar gyfer gwaith y Deyrnas. Ni wyddom yn iawn yr union gyfeiriad y byddwn yn mynd iddo gan fod newydd-deb y cynllun yn gofyn am hyblygrwydd wrth inni ganfod y ffordd ymlaen. Ond ymunwn â'n gilydd mewn gweddi i geisio bendith Duw ar y cyfan, ac y bydd y cyfan er clod i'w enw.

*Carwyn Siddall*
*Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau*
*Undeb yr Annibynwyr Cymraeg*

# Gweddi dros Ogledd Korea




Dyma bwyntiau weddi *Open Doors* a nodiadau cefndirol ar gyfer mis Tachwedd. Y mis hwn, rydym yn canolbwyntio ar ffoaduriaid Gogledd Korea. Os ydych chi'n ei defnyddio mewn gwasanaeth eglwys neu gwrdd gweddi ac nad oes gennych lawer o amser, byddai'r ddau baragraff cyntaf sy'n dilyn o'r nodiadau yn ddigon i arwain pobl i weddïo:

> Ym mis Hydref, anfonodd Tsieina 600 o ffoaduriaid Gogledd Korea, y mae llawer ohonynt yn Gristnogion, yn ôl i Ogledd Korea, lle maent yn debygol o wynebu artaith, carcharu a hyd yn oed farwolaeth.
>
> Mae Open Doors yn rhestru Gogledd Korea fel y man lle mae Cristnogion yn wynebu'r erledigaeth waethaf am eu ffydd. Os cânt eu darganfod gan yr awdurdodau, caiff credinwyr naill ai eu hanfon i wersylloedd llafur fel carcharorion gwleidyddol - lle mae'r amodau'n erchyll - neu eu lladd yn y fan a'r lle, a bydd eu teuluoedd yn rhannu eu tynged hefyd. Nid oes gan Gristnogion unrhyw ryddid o gwbl.

Os oes gennych unrhyw adborth, er enghraifft ar yr hyn sy'n gweithio'n dda neu sut y gallwn ei wella, rhowch wybod i mi trwy e-bost ar jims@opendoorsuk.org.

**Anfon cannoedd o ffoaduriaid Gogledd Korea yn ôl o Tsieina i berygl eithafol yng Ngogledd Korea**

Ym mis Hydref, anfonodd Tsieina 600 o ffoaduriaid Gogledd Korea, y mae llawer ohonynt yn Gristnogion, yn ôl i Ogledd Korea, lle maent yn debygol o wynebu artaith, carcharu a hyd yn oed farwolaeth.

Mae Open Doors yn rhestru Gogledd Korea fel y man lle mae Cristnogion yn wynebu'r erledigaeth waethaf am eu ffydd. Os cânt eu darganfod gan yr awdurdodau, caiff credinwyr naill ai eu hanfon i wersylloedd llafur fel carcharorion gwleidyddol - lle mae'r amodau'n erchyll - neu eu lladd yn y fan a'r lle, a bydd eu teuluoedd yn rhannu eu tynged hefyd. Nid oes gan Gristnogion unrhyw ryddid o gwbl.

Mae pryder hefyd am ffoaduriaid eraill o Ogledd Korea sy'n dal i fod yn Tsieina. Mae Timothy Cho, Cristion o'r DU a ddihangodd o Ogledd Korea yn ei arddegau, wedi annog Senedd y DU i weithredu.


"Rydw i wedi profi gorfod dychwelyd i'm gwlad fy hun unwaith, ac rwy'n gyfarwydd â'r broses o garcharu, arteithio a chosbi sy'n dilyn," ysgrifennodd Timothy, llefarydd Open Doors, mewn llythyr at Aelodau Seneddol. "Rwy'n eich cymell i annog Llywodraeth y DU i gychwyn deialog gydag awdurdodau Tsieineaidd i hwyluso alltudio'r ffoaduriaid Gogledd Korea sy'n weddill i wledydd trydydd parti fel De Korea neu Ynysoedd Philippines, yn hytrach na'u hanfon yn ôl i Ogledd Korea.

"Hyd yn oed os gallwn achub un person yn unig drwy'r ymdrechion diplomyddol hyn mewn cydweithrediad â Llywodraeth De Korea, byddai'n gyflawniad sylweddol."

I'r rhai a anfonwyd yn ôl i Ogledd Korea ym mis Hydref, fodd bynnag, mae'r rhagolygon yn llwm. "Mae llawer o'r 600 o ffoaduriaid yn fenywod Cristnogol, ac yn blant, gan gynnwys babanod a anwyd yn ddiweddar," ysgrifennodd Timothy. "Mae'r gosb i unrhyw un sydd wedi bod yn gysylltiedig ag eglwysi neu genhadon Cristnogol tra roedden nhw yn Tsieina yn debygol o fod yn arbennig o ddifrifol, yn wir mae llawer yn debygol o gael eu dienyddio."

# *Gair Duw ar Waith*
## gan Denzil I. John

### Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd




**Pennod 9**
**Eglwys mewn caffi**
**Marc 8:1–8 | 26 Tachwedd**

### Gweddi

Arglwydd Iesu, cofiwn i ti gerdded y priffyrdd a'r caeau gan godi sgwrs gyda phwy bynnag oedd yn y cylch. Maddau i ni am ffurfioli dy eglwys ar draul colli ei chymdeithas. Agor ein meddyliau o'r newydd i ystyried beth sy'n angenrheidiol ac yn hanfodol i addoliad a chenhadaeth eglwys. Amen.

### Darlleniad: Marc 8:1–10

### Cyflwyniad

Cawsom ein magu i feddwl am eglwys yng nghyd-destun adeilad a lleoliad, gyda threfn y gwasanaeth yn gyfarwydd a chymharol ffurfiol. Bydd yr hanesion am borthi'r tyrfaoedd yn ein hatgoffa am sawl sefyllfa o farbeciwiau gyda llawer o bobl yn derbyn lluniaeth hwylus. Bydd y syniad o gynnig bwyd yn fodd cyfleus o sôn am ymborth nefol. Sut gallwn ddychmygu eglwys heb adeilad, neu'n cyfarfod mewn adeilad nad yw'n debyg i'r adeiladau sydd gennym ledled gwlad a byd?

Yn Llyfr yr Actau, roedd Paul yn teithio ac yn debygol o chwilio am synagog Iddewig, gan wybod y byddai'n gyfarwydd â ffurf y gwasanaeth yno ac y byddai'r gynulleidfa yn deall iaith crefydd. Rhan o lwyddiant cenhadaeth Paul oedd ei fod yn ddigon cartrefol i godi testun i draethu arno unrhyw bryd ac mewn unrhyw le. Yn Actau 17 roedd wedi gweld ei gyfle wrth yr allor i'r Duw nad oedd pobl yn ei adnabod. Yn ystod ei ymweliad â Philipi bu'n sefyll ar lan yr afon gan y gwyddai fod rhai'n cyfarfod mewn lle felly er mwyn gweddïo. Dyna sut y daeth o hyd i Lydia, y werthwraig porffor.

Pe byddem yn mynd i ddinas ddieithr fel cenhadon heddiw a heb syniad o ddaearyddiaeth y lle, ble byddem yn debygol o ddod o hyd i bobl y gallem fod yn dechrau sgwrs gyda hwy – mewn siop, maes chwarae i blant, caffi neu ar lan afon? Wrth gwrs fod unrhyw beth yn bosibl, ond byddai man hamdden a chwilio am bobl gydag amser i sgwrsio yn gam synhwyrol. Dyna a wnaeth Paul a'i ffrindiau, gan ddod o hyd i Lydia a nifer o wragedd, a dyna ddechrau sefydliad Eglwys Philipi.

### Myfyrdod

Un o'r termau diweddar wrth sôn am genhadaeth yr eglwys yw Eglwys ar y Stryd neu Eglwys Gaffi. Mae nifer o eglwysi, fel eglwys All Nations yn Cathays, Caerdydd, sydd â chaffi yn y brif stryd. Ceir enghraifft arall yn Rhiwbeina, ac ar draws Prydain mae nifer helaeth o gynlluniau lle mae'r oedfa mewn capel yn fwy anffurfiol hyd at fod yn ddi-ffurf, neu fod eglwys yn llogi caffi a chynnal oedfa lai ffurfiol yno. Bu arbrofi yn Nhyddewi ac ym Merthyr. Mae'r Eglwys Fethodistaidd yn St Ives yn cynnal oedfa anffurfiol unwaith y mis, gan osod seddi'r addoldy yn debycach i gaffi na rhesi eistedd ffurfiol. Ceir adroddiadau am fentro gwahanol yn Ealing, Llundain, Stoke-on-Trent a Copenhagen yn Denmark sy'n cynnig enghreifftiau o fenter a llwyddiant.

Nodwedd gyson yr ymdrechion hyn yw osgoi ffurfioldeb a threfn, ond yn hytrach pwyso ar ymateb agored wrth sgwrsio am faterion ffydd. Mwy na thebyg, byddai'r mwyafrif ohonom yn ansicr o oedfa mor anffurfiol â hynny, ond beth am ein cyfeillion heb lawer o grefydd nad ydynt yn ymateb i'n cymhellion i ddod i oedfa? A fyddent yn ei gweld yn haws i alw heibio mewn Eglwys Gaffi a phrofi addoliad ystwythach ei drefniadaeth? Mewn mannau felly, bydd yna rywun neu rywrai i arwain y digwyddiad a byddai angen rhywbeth Beiblaidd i'w rannu a cherddoriaeth addoliad, mae'n siŵr. Sonnir yn aml am adeiladu maestrefi newydd yng Nghaerdydd, a phe bai'r fath gorff â Chyngor Eglwysi Caerdydd yn bodoli ac i Gyngor y Ddinas gynnig llain o dir i bwrpas codi adeilad ar gyfer addoliad a chenhadaeth y Cristnogion, beth fyddem am ei weld yno? Faint o gydweithio fyddai rhwng yr enwadau ac ai adeilad capelaidd fyddai ein dewis ni, ynteu rhywbeth cwbl wahanol? Byddem yn falch o glywed eich sylwadau!

### Gweddi

Nefol Dad, yn ein myfyrdod heddiw cyffeswn ein bod yn or-barod i ymddiried yn ein trefniadaeth gyfarwydd, heb feddwl bod hyn yn ddieithr ac yn anghyfforddus i eraill. Agor ein meddyliau i ddychmygu addasu ein hunain i gyflawni dy gomisiwn i fynd allan i'r byd a rhannu'r newyddion am Iesu â'r sawl sy'n anwybodus a diddeall o'r Efengyl. Amen.

### Cwestiynau i'w hystyried

1. Dim ond yn achlysurol iawn y siaradodd Iesu o fewn muriau adeilad. A oes angen adeilad arnom i fod yn eglwysi?
2. Ai sefydliad neu fudiad yw'r eglwys?
3. Ai ceidwaid adeiladau neu weinyddwyr gobaith yw eglwysi Cymru?
4. Dywedir bod eglwysi yn bod er mwyn eraill. A yw hyn yn wir yn eich achos chi?
5. Pam roedd miloedd yn tyrru ar ôl Iesu, ac onid yw ymarferoldeb Iesu yn dangos maint ei gonsýrn dros les eraill?

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 26 Tachwedd, am 7.30yh**
Bydd Nia Roberts yn profi lliw a llawenydd Diwali, Gŵyl y Goleuni. Cawn gwmni teulu o Fangor wrth iddyn nhw rannu uchafbwynt mawr y grefydd Hindŵaidd, a chael blas ar ddathliad arbennig yn Neuadd Ogwen, Bethesda.

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 26 Tachwedd, am 7:30yb a 16:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni'r Hybarch Eileen Davies

**Sul, 26 Tachwedd, am 12yp**
Oedfa dan arweiniad Lisa Isaac, Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru
(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwysi Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# Pum munud gyda'n hemynwyr: Thomas Williams (1761–1844)

O'th flaen, O Dduw, 'rwy'n dyfod
gan sefyll o hirbell;
pechadur yw fy enw,
ni feddaf enw gwell;
trugaredd 'rwy'n ei cheisio,
a'i cheisio eto wnaf,
trugaredd imi dyro,
'rwy'n marw onis caf.

Un o emynwyr Morgannwg ydyw Thomas Williams, Bethesda'r Fro, a ganwyd ef heb fod ymhell o'r Bontfaen mewn lle o'r enw Pendeulwyn. Amaethwr cefnog a dawnus oedd ei dad, a hyfforddodd ei fab yn wych. Cynhyrfwyd Thomas Williams gan bregethu Dafydd Jones, Llan-gan, ac ymaelododd â'r Methodistiaid yn Nhrehill.

Wedi priodi symudodd i fyw i blwyf Penparc. Yn ystod bywyd Thomas Williams bu'r helynt mawr ar achos Peter Williams. Pwy sydd heb wybod am Feibl Mawr Peter Williams? Cyhoeddi'r Beibl hwnnw oedd achos yr helynt, ac erlidiwyd Peter Williams yn gas, ac anghlod mawr i'r Methodistiaid oedd y baeddu a fu arno. Diarddelwyd ef ganddynt am nad oedd, meddant hwy, yn uniongred, a bu hyn yn achos helynt a rhwyg mewn llawer eglwys. Safodd Thomas Williams dros Peter Williams.

Sefydlwyd eglwys newydd ym Methesda, Llanilltud Fawr, ymhen amser daeth Thomas Williams yn weinidog arni, a pharhaodd felly hyd ei farw yn Nhachwedd 1844, yn bedwar ugain mlwydd oed. Ni dderbyniodd gyflog am fugeilio'r eglwys gan ei fod yn amaethwr hapus ei fyd, a dywedir ei fod yn bregethwr grymus a melys a choeth, a chofiodd cannoedd fendith wrth wrando arno.

Cyhoeddodd amryw o fân lyfrau yn ei ddydd, ond y llyfr pwysicaf a gyhoeddodd ydoedd *Llais y Durtur yn y Wlad*, ac yn y llyfr hwn y ceir rhai o brif emynau Thomas Williams. Os trowch chi i emyn rif 175 cewch emyn o waith Thomas Williams. Y mae'r eneiniad yn fwy ar ein cyfarfodydd oherwydd bod emynau fel hyn yn feddiant ac yn drysor i ni.

Mi glywais gynt fod Iesu,
a'i fod ef felly nawr,
yn derbyn publicanod
a phechaduriaid mawr;
O derbyn, Arglwydd, derbyn
fi hefyd gyda hwy,
a maddau'r holl anwiredd
heb gofio'r camwedd mwy.


## TASG Y PROFFWYD – ATEB

- Gŵr a lysenwid yn asyn cryf – **I**SSACHAR, Genesis 49:14
- Gŵr blewog – **E**SAU, Genesis 27:11
- Gof arian – **D**EMETRIUS, Actau 19:24
- Gŵr a ddaeth yn ôl i Fethania – **L**ASARUS, Ioan 11:17
- Mab i Lamech – **N**OA, Genesis 5:29
- Brenin Amalec – **A**GAG, 1 Samuel 15:33

I; E; D; L; N; A – **Daniel**

'Derbyn fy nghyngor, O frenin: tro oddi wrth dy bechodau trwy wneud cyfiawnder, a'th droseddau trwy wneud trugaredd â'r tlodion, iti gael dyddiau hir o heddwch.'

**Daniel 4:27**



# Gweddi Tachwedd

Cofio ac edrych ymlaen Dad cariadus, ein lloches a'n cadernid, deued y dydd y bydd rhyfeloedd yn terfynu, y bydd y dioddef a'r poen yn darfod, ac y bydd y ddaear i gyd yn gwybod am heddwch y nefoedd.

Yn Nhachwedd y dyddiau byrion, y niwl a'r Cofio, helpa ni wrth i ni hefyd edrych ymlaen at Adfent. Wrth gamu'n nes at y Nadolig, fe gofiwn Dy ddyfod fel baban yn Iesu.

Ond calonoga ni yn y mis anodd hwn, dy fod Ti wedi dangos i ni hefyd fyd lle nad oes marwolaeth a galaru. Byddi yn gwneud popeth yn newydd, a bydd popeth yn dda. O deued y Deyrnas honno yn fwy real i ni ar y ddaear ac yn ein calonnau bob un. Amen

**Aled Lewis Evans**





# Barn Annibynnol

## Ai AI all ein helpu?

Mae geiriadur Collins wedi dewis talfyriad o 'artificial intelligence' – AI – fel Gair y Flwyddyn 2023. Mae'n air sydd wedi dominyddu cymaint o'n cyfathrebu eleni. Rydyn ni i gyd wedi gweld penawdau am AI yn y papurau newydd, rhai ohonynt yn dda ac eraill yn llai ffafriol.

### Maes hynod o astrus

Mae'n faes hynod o astrus, wrth gwrs, a dealltwriaeth y mwyafrif mawr ohonom o'r holl beth yn gyfyng iawn, dybiwn i. Technoleg yw AI sy'n galluogi cyfrifiadur i feddwl neu weithredu mewn dull mwy 'dynol'. Mae'n gallu effeithio ar y ffordd rydyn ni'n byw, gweithio a mwynhau yn ein horiau hamdden, weithiau heb i ni sylweddoli hynny. Ac wrth i AI chwarae rhan helaethach yn ein bywydau mae'r dechnoleg ei hunan yn cynyddu'n gyflymach nag y gallwn ei amgyffred! Mae AI yn cael ei ddefnyddio mewn amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys y diwydiant meddygol, y diwydiant awtomobil, a'r diwydiant masnachol. Dywedodd un comedïwr yn ddiweddar fod yn rhaid iddo yntau a'i broffesiwn ei siapo hi rhag cael eu llorio'n llwyr gan botensial jôcs Chat GPT.

Bu arweinwyr byd yn cyfarfod â chwmnïau deallusrwydd artiffisial mewn uwch gynhadledd yn Bletchley Park yn ddiweddar er mwyn trafod sut i ddefnyddio ffurfiau mwyaf datblygedig y dechnoleg yn ddiogel. Nod y trafodaethau byd-eang, mae'n debyg, oedd adeiladu consensws rhyngwladol ar ddyfodol AI.

### Manteision dirifedi

Mae manteision AI yn ddirifedi. Gall helpu i gael canlyniadau cyflymach a mwy manwl. Mae'n lleihau camgymeriadau neu wallau dynol. Gall gyflawni tasgau anodd a pheryglus gan osgoi niwed neu anaf i fodau dynol. Mae'r rhaglenni ar gael am bedair awr ar hugain a'r peiriannau'n gallu gweithio drwy'r dydd a'r nos. Tra bo bodau dynol yn gallu anghytuno a'u rhagfarnau'n effeithio ar benderfyniadau, mae AI yn gallu dod i benderfyniad yn ddiduedd.

Mae pob swydd yn cynnwys elfennau ailadroddus ond mae AI yn gallu rhyddhau pobl i ganolbwyntio ar dasgau sy'n gofyn am sgiliau uwch. Mae hynny yn y diwedd yn gallu arwain at well gwerth am arian. Gall alluogi doctoriaid i ffocysu ar gleifion, ac athrawon i dreulio mwy o'u hamser yn yr ystafell ddosbarth. Clywsom yn ddiweddar hefyd fel mae ymchwilwyr yn Llundain wedi canfod dull gwell o adnabod math prin o ganser gan ddefnyddio AI a hynny er mawr ryddhad i'r cleifion.

### Anfanteision

Serch hynny, mae yna anfanteision. Mae'r rheiny'n cynnwys costau gweithredu a datblygu AI mewn bywyd bob dydd ac mewn busnes. Mae peiriannau'n heneiddio ac yn dyddio dros amser, maent hefyd yn ddiffygiol o ran gallu dynol ryw i ddefnyddio emosiwn a chreadigrwydd wrth ddod i benderfyniad. Does dim modd ychwaith plannu tosturi neu garedigrwydd yn unrhyw raglen. Gall presenoldeb AI olygu llawer llai o swyddi – mae hynny'n anochel. Mae yna hefyd broblemau moesol, fel amddiffyn preifatrwydd cwsmer wrth i'r defnydd o AI gynyddu'n sylweddol. Mae perygl y gall y dechnoleg ein camarwain drwy bedlera anwiredd. A brawychus yn wir yw clywed Elon Musk, y biliwnydd technolegol, yn disgrifio AI fel y bygythiad mwyaf i ddynoliaeth oherwydd y deallusrwydd anferthol sydd ganddo.

### Bygythiad i'n ffydd?

Beth bynnag a feddyliwn am AI, gall neb wadu'r ffaith ei fod yma i aros ac na fydd yn diflannu. Mae gan AI y potensial i ddylanwadu ar sawl agwedd ar gymdeithas, yn cynnwys crefydd. Efallai bod rhai ohonom yn teimlo bod AI yn fygythiad i Gristnogaeth neu grefyddau eraill gan fod ganddo'r potensial i newid y ffordd rydyn n'n byw a meddwl.

Fodd bynnag, offeryn yw AI ac mae ei ddylanwad yn dibynnu ar y ffordd y caiff ei ddefnyddio. Yn ddiamau, gellir defnyddio AI mewn gwahanol ffyrdd i helpu i ledaenu neges Cristnogaeth, i ateb cwestiynau am ein ffydd a hyd yn oed i gynnal deialog am ein ffydd. Mae angen i ni, Gristnogion, fod yn barod i elwa ar fuddiannau AI, i arwain y ffordd ar fater moesoldeb peiriant a chynorthwyo i ddileu unrhyw beryglon posibl.

Mae'n debyg fod prif grefyddau'r byd eang yn trafod eu perthynas ag AI a bod rhai'n dechrau cynnwys y dechnoleg hon yn eu haddoli. Oni ddylai'n harweinwyr crefyddol yng Nghymru ar draws yr enwadau hefyd drafod y ffordd ymlaen o ran perthynas Cristnogaeth ac AI, gan roi sylw arbennig i le'r Gymraeg yn hyn oll?

### Colli cyfle?

Cofiwn nad disodli'r profiadau wyneb yn wyneb yw'r nod ond eu cyfoethogi a'u lledaenu. Gwelsom fudd o ddefnyddio technoleg fodern yn ystod y pandemig er lles y ffydd Gristnogol. Tybed a ydym wedi llaesu dwylo ers hynny yn hytrach nag adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd yn ystod y pandemig? Ni allwn fforddio colli'r cyfle i drafod y mater pwysig hwn – a nawr, ac nid yfory, yw'r adeg i wneud hynny.

**R. Alun Charles**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

**Yr hyn a wêl pobl o Dduw, yw'r hyn o Dduw a wêl pobl ynom ni. Rhaid ymgorffori'r Newyddion Da.**




'Duw Cariad yw - byddwch lawen ...'



*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# '… y pellter oedd rhyngddynt oedd fawr'

**Gwaith mawr Iesu Grist** oedd 'pontio' – pontio rhwng Duw a'r byd, rhwng y dwyfol a'r dynol.

Yn naturiol felly, ein gwaith mawr ninnau sy'n arddel yr enw o fod yn ddilynwyr iddo, yw pontio o hyd – pontio rhwng ein gilydd fel Cristnogion, a phontio rhwng credinwyr a'r rhai di-gred.

Un o brif swyddogaethau'r eglwys ar y ddaear, os nad y mwyaf, yw cysylltu pobl a Duw. Serch hynny, er ein hymdrechion didwyll, ymddengys i raddau helaeth ein bod yn methu a phontio'n aml. Nid yw didwylledd yn golygu bod y gwaith yn cael ei gyflawni, yn enwedig os ydym ar y trywydd anghywir!

## Pwrpas pontio

Rhaid deall ein pwrpas os ydym am gyflawni bwriad Duw ar ein cyfer fel unigolion, ac ar gyfer ei eglwys. Dangosit hyn yn glir yn hanes yr Eglwys Fore yn Llyfr yr Actau. Prif flaenoriaeth yr eglwys ymhob oes yw gwireddu'r hyn a ddywedodd Iesu pan adawodd y byd: rhannu'r Efengyl, adlewyrchu ei gariad yn ei byw bob dydd, braenaru'r tir ymhob cenhedlaeth.


Gall pethau eraill ddatblygu'n brif bwrpas i ni'n aml. Mae traddodiad yn gyrru ambell eglwys leol, nid bod traddodiad yn ddrwg ynddo ei hun, ond mae cynifer o eglwysi'n rhygnu 'mlaen yn yr un ffordd oherwydd 'dyna fel y gwnaethom hyn erioed'. Beth sydd gan Dduw i ddweud am hyn?

Yr unig beth sydd i fod yn yriant eglwys yw 'pontio' a chyflwyno Cris i fyd sydd mewn angen dirfawr am hynny'n union.

## Pwysigrwydd pontio

Hyd y gwela i, mae dau fath o eglwys yn bodoli. Un lle disgwylir i'r gweinidog neu'r arweinydd wneud popeth, gyda'r gynulleidfa yn troi allan ar y Sul, gwrando ar y neges, cyfrannu yn ôl ei harfer, a dyna'r cyfan! A'r llall, lle mae'r arweinydd neu'r gweinidog a'r gynulleidfa fel y'i gilydd yn 'ddarparwyr' neu'n alluogwyr.

Mae doniau gwahanol gan bawb, ac ni fydd neb yn gwasanaethu Duw'r un un



modd wrth gwrs. Ond mae'r eglwys lle mae'r gweinidog/arweinydd yn darparu ar gyfer anghenion y gymdeithas ehangach, yn ein cynorthwyo ni gyd i fod yr hyn y dylem ac y gallem fod yn ôl bwriad Duw ar ein cyfer , yn eglwys, sydd o ddifri yn 'pontio'.

## Pŵer pontio

I ddychwelyd at brofiad yr Eglwys Fore, darllenwn yn yr wythfed adnod o bennod agoriadol Actau'r Apostolion: 'Ond fe dderbyniwch nerth wedi i'r Ysbryd Glan ddod arnoch, a byddwch yn dystion i mi yn Jerwsalem, ac yn holl Jwdea a Samaria, hyd eithaf y ddaear.'

Pan lenwyd y Cristnogion cynnar â'r Ysbryd Glân, nid aros yn yr unfan a wnaethant, ond yn hytrach mynd allan gan rannu o'u tystiolaeth, a cheisio ennill eraill at Grist. Mae'r adnod yn crisialu'r weithred o bontio, gan sôn am ddechreuadau, dulliau a dibenion cenhadaeth a chomisiwn mawr Iesu, a hynny'n lleol, yn genedlaethol, ac yn fyd eang.

Pontio'n gagendor sy'n bodoli rhyngom a Duw – dyna'r gwaith mawr o hyd:

'... y pellter oedd rhyngddynt oedd fawr,
fe'i llanwodd a'i haeddiant ei Hun'

**Robert G. Nicholls**

# LLAIS O'N DOE

Ychydig eiriau olaf 'Llwybr yr Adfywiad', anerchiad y diweddar Barchedig D. T. Evans (1920–83) fel Llywydd yr Undeb ym 1982:

'… daeth yr amser i ni ddod allan o'r hunan-drueni sy'n peri i ni edrych yn ôl fel bai Canaan eisoes wedi mynd heibio yn hanes yr Eglwys, a mentro dathlu yn llawen ac yn hyderus fod holl adnoddau Duw o'n plaid ni heddiw ...

Emynau heddiw, yn yr amser presennol yw llawer o emynau yr Atgyfodiad …

Heddiw cododd Crist o'i fedd,
Haleliwia!
Llawen ddydd o foliant yw,
Haleliwia!

– a hynny oherwydd bod yr Atgyfodiad, nid yn unig yn ffaith unwaith mewn hanes, ond hefyd yn rym cyfoes i'n nerthu a'n hadnewyddu yma ac yn awr. Am hynny llawenhawn, dathlwn a gorfoleddwn.'




*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*